



## Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

Dyma ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Aseidiadau Athrawon ac Arholiadau</b>		
Byddwn yn gwella deilliannau i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. <i>(Cam gweithredu rhif 12511)</i>	✓	Mae 18 o ysgolion yn rhan o brosiect ymchwil mwy abl a thalentog Sir Gaerfyrddin (5 ysgol uwchradd ac 13 ysgol gynradd). Mae cynllunio, paratoi a sefydlu'r prosiect wedi digwydd ym mhob ysgol. Mae ysgolion yn y cam gweithredu, e.e. mae disgyblion wedi cael gweithdai cychwynnol gydag artistiaid, beirdd ac ati, wedi gwneud ymchwil yn y gymuned (e.e. gyda thîm adwerthu M&S), ac wedi'u cyflwyno i strategaethau dysgu gwell penodol i ddatblygu strategaethau dyfalbarhad ar gyfer byw'n annibynnol er enghraifft. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn nhymer yr haf ac yn dilyn gwerthusiad bydd ysgolion yn rhannu eu profiad a'u harferion da â gweddill ysgolion Sir Gaerfyrddin. Mae'r prosiect wedi cymryd y syniad cyffredinol y byddwch yn codi cyflawniad pawb drwy dargedu'r mwy galluog ond agor y prosiectau i bawb gan ymestyn y rhai mwyaf galluog.
Byddwn yn cynyddu canran yr ysgolion a ddynodwyd â chategori cymorth 'Gwyrdd neu Felyn' o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Cymorth Ysgolion. <i>(Cam gweithredu rhif 12512)</i>	✓	Mae ymgynghorwyr her wedi ymgymryd mewn modd trwyadl â'r broses gategoreiddio ochr yn ochr â'n hysgolion yn ystod tymor yr hydref, gan sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y pecyn cymorth cywir i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd pellach. Gellir dod o hyd i ddata mewn perthynas â Chategori Cymorth ar 'Fy Ysgol Leol'. Yn Sir Gaerfyrddin mae nifer yr ysgolion cynradd 'gwyrdd' wedi cynyddu o 16 yn 2016 i 21 yn 2017; mae nifer yr ysgolion 'melyn' sydd gennym wedi gostwng o 58 i 49, ac mae nifer yr ysgolion 'ambr' wedi cynyddu o 21 i 26. Mae gennym 1 ysgol gynradd 'goch'. Mae ein data yn adlewyrchu tueddiadau ar draws rhanbarth ERW.
Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd ag ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) i wella deilliannau'r holl ddisgyblion ymhellach ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 ond gyda phwyslais penodol ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. <i>(Cam gweithredu rhif 12513)</i>	✓	Mae'r tîm o ymgynghorwyr her ac ymgynghorwyr her cyswllt wedi cynnal yr ymweliadau cymorth craidd â'n hysgolion, ar brydiau ar y cyd ag arweinwyr dysgu ERW, er mwyn rhoi cymorth o ran meysydd penodol y canolbwyntir arnynt. Mae'r ymweliadau wedi eu dylunio ar y cyd ag ysgolion unigol, gan ddatblygu rhaglen bwrpasol o gefnogaeth a her yn unol â rhaglen hunanwerthuso a monitro. Mae ymweliadau wedi cynnwys proses gategoreiddio Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth gan ysgolion wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae'r arweinwyr wedi gwerthfawrogi'r drafodaeth broffesiynol sydd wedi ategu'r gwaith craffu, yr arsylwi ar wersi a thro dysgu, yn ogystal â chyfleoedd llais y disgybl. Mae ysgolion yn dod yn fwyfwy hyderus o ran mynd i'r afael â fframwaith arolygu Estyn ac yn defnyddio'r ymweliadau cymorth craidd i wella datblygiad proffesiynol staff a llywodraethwyr drwy'r broses hon. Mae dealltwriaeth well o gryfderau'r ysgol a'r meysydd

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		i'w datblygu, sy'n cael eu hatgyfnerthu'n dda drwy gamau gweithredu a gynllunnir yn bwrrpasol.
<p>Byddwn yn parhau i ddal ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) a'r holl ysgolion i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth mewn ysgolion lle nad yw perfformiad yn foddhaol. (Cam gweithredu rhif 12514)</p>	✓	<p>Mae'r ystod eang o weithgareddau a roddwyd ar waith i gefnogi gweithrediad effeithiol y cam hwn wedi parhau i ganolbwyntio ar elfennau penodol yr agenda 'cefnogi, herio a bod yn atebol.' Mae'r rhain wedi cynnwys: 1. Cwblhau pob Ymweliad Cymorth Craidd ERW 1 a 2 ym mhob un o'n hysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys - a) dadansoddi canlyniadau perfformiad (2017) a gallu'r ysgol i hunan-wella b) cytuno ar y Categori Cymorth Categori Cenedlaethol cyfredol ar gyfer 2018-19 c) adolygu a diwygio pob Pecyn Cymorth i ysgolion unigol d) adolygiad o'r ddarpariaeth 'arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu' mae ysgolion a swyddogion ar hyn o bryd yn y broses o elwa ar Ymweliad Cymorth Craidd ERW 3 yn ystod Tymor yr Haf 2018. Adroddir ar y gweithgaredd hwn yn ystod cylch nesaf y Dangosydd Perfformiad hwn. 2. Mae'r gwaith o fonitro a chraffu'n drylwyr ar y cynnydd a wneir gan ein 'Ysgolion sy'n Peri Pryder' wedi parhau drwy ystod o brosesau. Drwy oruchwyliaeth cyfarfodydd Sir Gaerfyrddin a Thîm ERW, gyda chymorth ychwanegol a her gan gyfarfodydd Panel Craffu yr Awdurdod Lleol ac ymweliadau Arolygydd Cyswllt Awdurdodau Lleol Estyn (LALI), mae'r gwaith wedi sicrhau ffocws diwyro ar gynnydd yn erbyn camau y cytunwyd arnynt. Mae swyddogion wedi sicrhau bod gweithgareddau mewn ysgolion yn dal i gael cefnogaeth dda yn rheolaidd. Mae'r Panel Craffu Addysg a Phlant wedi gweithredu ei gylch cyntaf o 'Ymweliadau Ysgol'. Mae'r rhain wedi rhoi bod i'r cyfle i drafod a dadansoddi perfformiad ac anghenion ysgolion unigol. Canfyddiadau wedi'u hadrodd yn ôl i'r Panel Craffu llawn fel eitem benodol ar yr agenda.</p>
<p>Byddwn yn cynnal % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU graddau A*-C neu gymhwyster cyfatebol, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (PAM/006)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 65.1% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 65.1% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 57.2% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Yn dilyn argymhellion o adolygiadau a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gwnaed nifer o newidiadau allweddol i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng o 6ed i 8fed ond dal yn uwch na chyfartaledd Cymru o 54.6%. Mae'n bwysig nodi yr effeithiwyd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi, monitro a herio ysgolion yn briodol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael gwell canlyniadau o ran perfformiad. Bydd hyn yn cael ei weithredu drwy gynnwys rhanbarthol cytunedig Ymweliadau Cymorth Craidd ERW.</p>
<p>Byddwn yn gwella'r sgôr gyfartalog wedi'i chapio 9 (9 canlyniad arholiad gorau) i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 (PAM/032) <b>Mae hwn yn fesur newydd ar gyfer 17/18 – Blwyddyn academaidd 16/17 ac mae'n disodli'r mesur trothwy Lefel 2 (PAM/006) uchod fel y prif fesur ar gyfer Cyfnod Allweddol 4</b></p>	-	<p><b>Canlyniad 2017/18 – 360.8 - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 ganlyniad o 360.8, a hwn oedd y canlyniad seithfed gorau yng Nghymru ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig o 350.9.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwylidig ar ddiwedd <b>Cyfnod Allweddol 2</b> (PAM/004) (Canlyniad 2016/17 - 89.0% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 89.2% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 88.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Nid yw'r canlyniad yn cydymffurfio â'r targed ac mae wedi gostwng 0.2 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran cynnydd mewn deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi'u rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith yn ein hysgolion. Mae'n ddefnyddiol nodi bod dau ddarn allweddol o waith cenedlaethol, sef Categori Cenedlaethol a Fframwaith diwygiedig Arolygu Estyn bellach yn canolbwyntio mewn rhagor o fanylder ar 'gynnydd disgyblion unigol.' Nid yw hyn yn eithrio dadansoddiadau ffurfiannol o berfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol, ond mae potensial y bydd yn darparu cyd-destun ehangach i'r mesur perfformiad hwn.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng <b>Nghyfnod Allweddol 2</b> (SCC/29a) (Canlyniad 2016/17 - 56.67% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 60% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✓	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 71.4%</b> (10 allan o 14) mae hyn yn unol â'r targed ac mae'n dangos gwelliant. Cofiwch fod nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn yn fach ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac felly gall hynny effeithio ar y canlyniad ac amrywio'n fawr.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwylidig ar ddiwedd <b>Cyfnod Allweddol 3</b> (PAM/005) (Canlyniad 2016/17 - 86.3% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 86.5% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✓	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 88.4% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Y canlyniad yw'r uchaf a gofnodwyd gan yr Awdurdod Lleol, ac mae'n parhau â'n tuedd ar i fyny o 68.4% yn 2011. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran cynnydd mewn deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni 5 <b>TGAU</b> neu ragor gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (5.0.2.2) (Canlyniad 2016/17 - 89.2% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 89.5% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 72.6% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Yn dilyn argymhellion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae sawl newid allweddol wedi cael eu gwneud i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae'n bwysig nodi bod y newidiadau hyn yn effeithio ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng o 4ydd i 5ed.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (<b>2 Safon Uwch</b> gradd A-E)(5.0.2.3) (Canlyniad 2016/17 - 99.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 99.6% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 97.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Nid yw'r mesur hwn yn cydymffurfio â'r targed ac mae wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae safle cymharol yr Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gostwng o'r safle 1af i'r 5ed safle. Mae her a chymorth ychwanegol i ysgolion yn dal i gael cryn effaith ar berfformiad yn gyffredinol, a rhoddir ystyriaeth i broffil unigol pob carfan. Disgwylir amrywiadau blynyddol pan fo'r perfformiad mor uchel. Mae'n bwysig nodi ein bod wedi parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau 'craidd'. Y <i>disgyblion hynny sy'n cyflawni o leiaf gradd C mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad</i> (5.0.2.6)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 58.71% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae nifer o newidiadau allweddol wedi cael eu gwneud i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 sy'n effeithio</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<p>(Canlyniad 2016/17 - 62.34% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 62.5% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>		<p>ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae'n bwysig nodi bod amrywiant wedi bod yn genedlaethol.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 (SCC/29a) (Canlyniad 2016/17 - 18% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 20% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 12.5%</b> (5 allan o 40) nid yw hyn yn unol â'r targed ac mae'n dangos gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cofiwch fod nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn yn fach ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac felly gall hynny effeithio ar y canlyniad ac amrywio'n fawr.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion fydd yn cael asesiad athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (EDU/006i) (Canlyniad 2016/17 - 50.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 51.0% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✓	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 52.2% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Mae'r mesur hwn yn unol â'r targed ac wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol ac yn parhau i fod yn uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru o 21.0%.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion fydd yn cael asesiad athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (EDU/006i) (Canlyniad 2016/17 - 42.2% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 42.5% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 39.9% - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Er nad yw'n cydymffurfio â'r targed, a bod dirywiad o gymharu â'r llynedd, rydym yn dal i fod mewn sefyllfa iach ac o fewn y pedwar canlyniad gorau yng Nghymru.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 (EDU/011) (Canlyniad 2016/17 - 596 o bwyntiau - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 600 o bwyntiau - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 469.4 - Blwyddyn Academaidd 16/17</b> Yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae nifer o newidiadau allweddol wedi cael eu gwneud i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae'n bwysig nodi bod y newidiadau hyn yn effeithio ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng o 1af i 8fed ond rydym yn dal i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru o 458.7.</p>
<p><b>B – Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol - Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif</b></p>		
<p>Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysgol a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau parhaus mewn modd pedant. (Cam gweithredu rhif 12515)</p>	✓	<p>Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i gefnogi'r teuluoedd a'r disgyblion hynny y mae eu presenoldeb yn yr ysgol o dan 85%. Crynodeb o'i berfformiad ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dod i ben 2017, sydd wedi'i ddisbarthu i ysgolion ac sy'n amlinellu lefel yr ymgysylltu a'r cymorth a roddwyd gan y Gwasanaeth Lles Addysg. Cafodd y gwasanaeth ei adolygu ym mis Ionawr 2018 ac mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud i wella rhagor ar y gwasanaeth. Bydd y rhain yn ffurfio cynlluniau prosiect penodol drwy gydol 2018/19.</p>
<p>Byddwn yn ymgynghori â Phenaeithiaid i ystyried sut i wella % absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol awdurdodedig ac absenoldeb oherwydd salwch. (Cam gweithredu rhif 12516)</p>	✓	<p>Mae ymgynghoriad wedi'i gwblhau ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu. Bydd ystod o ffrydiau prosiect yn unol â'r cynllun gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ystod 2018/19.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu % <b>presenoldeb disgyblion</b> mewn ysgolion cynradd (PAM/007)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 94.8% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 95.0% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 94.4% - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Nid yw hyn yn unol â'r targed ac mae'r canlyniad wedi gostwng 0.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn gymharol, rydym wedi disgyn i safle 21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn ganlyniad siomedig ac mae dadansoddi'n dangos bod cynnydd o 0.3% mewn absenoldeb oherwydd bod disgyblion yn sâl a bod cynnydd o 0.1% oherwydd gwyliau teuluol awdurdodedig. Ceisir parhau i wneud gwelliannau drwy gynyddu'r cymorth a'r her a roddir i ysgolion. Byddwn yn ymgynghori â Phenaethiaid yn benodol i ystyried sut mae gwella'r ddau faes dan sylw.</p>
<p>Byddwn yn gostwng % yr <b>absenoldeb wedi'i awdurdodi</b> mewn ysgolion cynradd (4.1.2.3)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 4.4% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 4.2% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'r canlyniad wedi gostwng 0.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn ganlyniad siomedig ac mae dadansoddi yn dangos bod cynnydd o 0.3% mewn absenoldeb oherwydd bod disgyblion yn sâl a bod cynnydd o 0.1% oherwydd gwyliau teuluol awdurdodedig. Ceisir parhau i wneud gwelliannau drwy gynyddu'r cymorth a'r her a roddir i ysgolion. Byddwn yn ymgynghori â Phenaethiaid yn benodol i ystyried sut mae gwella'r ddau faes dan sylw.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (PAM/008)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 94.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 94.6% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✘	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 94.3% - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 94.1%, ond wedi symud o'r 9fed safle i'r 7fed safle yng Nghymru. Ein safle disgwylidig yw 11eg, wedi'i seilio ar % y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim fesul Awdurdod Lleol. Bydd ymgynghori cadarn gyda Phenaethiaid, y Gwasanaeth Lles Addysg a phobl broffesiynol gysylltiedig er mwyn datblygu cynllun gweithredu i wella presenoldeb ysgol yn y dyfodol.</p>
<p>Byddwn yn gostwng % yr <b>absenoldeb wedi'i awdurdodi</b> mewn ysgolion uwchradd (4.1.2.2)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 4.9% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</p>	✓	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Mae hyn yn unol â'r targed ac yn dangos ychydig o welliant. Cyfartaledd Cymru yw 4.5%, felly cedwir y pwyslais ar wella presenoldeb, yn enwedig grwpiau agored i niwed.</p>
<b>C - Parhau i ddarparu'r amgylcheddau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr</b>		
<p>Byddwn yn darparu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, sy'n cynnwys holl elfennau'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. (Cam gweithredu rhif 12517)</p>	✓	<p>Mae Sir Gaerfyrddin ychydig dros hanner ffordd drwy gyflawni Band A y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Band B o'r rhaglen wedi'i gyflwyno ym mis Gorffennaf 2017 - cymeradwyaeth ddemocrataidd ôl-weithredol wedi'i rhoi gan y Bwrdd Gweithredol. Mae nifer o gynlluniau Band B wedi cael eu cyflymu er mwyn eu darparu'n gynnar.</p>
<p>Byddwn yn rheoli materion ystâd ysgolion gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, gwirio asedau, mentrau eiddo llywodraethwyr a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth mynediad anabledd (Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd). (Cam gweithredu rhif 12518)</p>	✓	<p>Cynnal a Chadw Adeiladau - cafodd prosiectau brys eu rhoi ar waith dros wyliau haf yr ysgolion. Mae proses flaenoriaethu debyg wedi cychwyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Gwirio Asedau - Ychwanegu/Gwaredu adeiladau a'u defnyddio bellach yn cael eu derbyn a'u gwirio ar sail ad hoc. Cafodd cofrestrau asedau a chyfrifiadau capasiti eu diweddar fel oedd yn ofynnol. Rheoli ystadau - ystyried a chymeradwyo fel y bo'r angen geisiadau am gynigion datblygu ysgol a chymorth ar gyfer cynigion rheoli risgiau.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd - ceisiadau'n cael eu derbyn, eu datblygu a'u gweithredu ar sail ad hoc.
Byddwn yn cynnal gweithdrefnau statudol sy'n gysylltiedig â ffederasiwn, trefniadaeth ysgolion a/neu brosiectau gwella. <i>(Cam gweithredu rhif 12519)</i>	✓	Trafodwyd nifer o gynigion Trefniadaeth/Ffedereiddio Ysgolion mewn gweithdy gan Swyddogion. Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol gyda'r Bwrdd Gweithredol ac mae mwy yn cael eu cynllunio a'u dilyn trwy drafodaethau gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant.
Byddwn yn buddsoddi tua £19 miliwn mewn prosiectau sylweddol o ran adeiladu a moderneiddio prosiectau yn Ysgolion Coedcae, Pen Rhos, Trimsaran, Sant Ioan Llwyd a Pharc y Tywyn. <i>(Cam gweithredu rhif 12520)</i>	✓	Mae pob hawliad grant wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Coedcae - yr adeiladu wedi'i gwblhau. Pen Rhos (Seaside) - Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn barod i symud i mewn ym mis Ebrill 2018. Trimsaran - mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda, mae Cam 1 wedi'i gwblhau ac mae Cam 2 gwaith allanol bron wedi'i gwblhau. Sant Ioan Llwyd - mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda a bron â chael ei gwblhau yn barod ar gyfer symud i mewn yn llawn ym mis Medi 2018. Mae'r gwaith adeiladu ym Mharc y Tywyn wedi mynd rhagddo'n dda yn ystod y flwyddyn, yn barod i symud i mewn yr haf hwn.
Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno achosion busnes ar gyfer ad-drefnu ysgolion a phrosiectau buddsoddi yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif genedlaethol. <i>(Cam gweithredu rhif 12521)</i>	✓	Yn ystod 2017/18:- Cafodd Achosion Cyfiawnhau Busnes (BJC) Pontyberem a Llangadog eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae Achos Busnes Amlinellol Dewi Sant ac Achos Busnes Amlinellol Strategol Pen-bre wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
Byddwn yn digomisiynu safleoedd yn dilyn cau neu uno ysgolion. <i>(Cam gweithredu rhif 12522)</i>	✓	Mae hen ysgolion Llanwrda a Llansadwrn a hen safle'r Ganolfan Addysgu a Dysgu yn y Pwll a Llwynhendy wedi cael eu datgomisiynu a'u trosglwyddo i'r Is-adran Eiddo.
Byddwn yn sicrhau bod gan yr holl ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd y seilweithiau a'r technolegau digidol diweddaraf ar waith i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif h.y. Prosiect Dysgu yn y Gymru Ddigidol 2. <i>(Cam gweithredu rhif 12523)</i>	✓	Mae'r pecyn ysgolion 5 mlynedd newydd ar gyfer darpariaeth TGCh wedi'i gwblhau gan gynnwys model costau, Strategaeth TGCh a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Roedd yr ymgynghori ynghylch y pecyn hwn gydag ysgolion, yr adran addysg, ac arweinwyr gwleidyddol a chorfforaethol yn gadarnhaol. Mae'r strategaeth yn cynnwys glasbrintiau technegol uchelgeisiol i ysgolion sy'n amlinellu'r holl systemau a seilwaith amrywiol sydd eu hangen i gefnogi darpariaeth addysg yn yr 21ain ganrif. Bellach mae pob adeilad ysgol newydd yn cydymffurfio â'r glasbrint hwn. Mae trafodaeth wedi bod â Thîm Rheoli Adrannol Rhaglen Moderneiddio Addysg ac Addysg ysgolion ynghylch model cost newydd ar gyfer adeiladau ysgolion newydd a blaengynllun gwaith ar gyfer cyllido'r rhaglen waith hon. Bydd y model costau a'r flaenraglen waith yn helpu i sicrhau bod yr holl ysgolion newydd a adeiledir yn cael eu hariannu'n addas a'u trin fel blaenoriaeth yn y Gwasanaethau TGCh. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, BT ac Ysgolion i wneud cynnydd o ran prosiect Dysgu yn y Gymru Ddigidol 2, gan uwchraddio'r seilwaith band eang cyflym iawn a chynyddu lled band y rhyngwyd mewn 42 o ysgolion lle nad yw'r cyflymder yn cyrraedd y safon ofynnol.
Byddwn yn parhau i wella cyflwr, addasrwydd ac adnoddau TGCh mewn ysgolion. <i>(Cam gweithredu rhif 12524)</i>	✓	Rydym wedi parhau i wella cyflwr, addasrwydd ac adnoddau TGCh ar gyfer ysgolion dros y flwyddyn ac wedi cyflwyno'r hunanwasanaeth i bob ysgol. Bydd gwaith a wneir ar ein

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		canolfannau data ac i ailddylunio'r rhwydwaith o fudd i ysgolion drwy ychwanegu cydnerthedd at y gwasanaethau craidd maent yn eu defnyddio.
Byddwn yn cynnal % yr ysgolion y graddiwyd eu bod yn "Dda" (Categori A) neu'n "Foddhaol" (Categori B) am gyflwr yr adeiladau (4.3.1.8) (Canlyniad 2016/17 - 57% / Targed 2017/2018 - 57%)	✓	<b>Canlyniad 2017/18 - 57%.</b> Y canlyniad yn unol â'r targed ac wedi aros yn gyson. Mae'r canlyniad yn araf yn newid gan fod yr amserlenni o ran gwella ac adeiladu ysgolion newydd a'r targedau yn cael eu 'stepio' wrth i brosiect bob adeilad gael ei gwblhau. Nid oedd unrhyw ysgolion newydd i'w hagor yn 2017/18 ac roedd yn argoeli y byddai'r targed yn aros yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.
<b>D – Parhau i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth effeithiol a darpariaeth ddysgu o ansawdd uchel</b>		
Byddwn yn parhau i gefnogi, herio a gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r effaith ar wella darpariaeth a deilliannau ar y cyd ag uwch-arweinwyr ysgolion e.e. darparu Seminarau a Rhwydweithiau Arweinyddiaeth. (Cam gweithredu rhif 12525)	✓	Mae gweithgareddau eleni wedi peri i gynnydd pellach gael ei wneud o ran natur bwrpasol cymorth a chamau effeithiol ar gyfer y cam hwn. Maent wedi canolbwyntio'n benodol ar: 1. Gweithredu a gwerthuso Ymweliadau Craidd Cymorth ERW 1 a 2 ym mhob ysgol 2. Mae comisiynu uwch-arweinwyr i gefnogi gwaith Ymgynghorydd Her ERW (fel 'Ymgynghorwyr Her a Gomisiynwyd') wedi parhau i gyfrannu'n effeithiol at rannu 'arfer da o ran arweinyddiaeth' ar draws llawer o'n hysgolion a chefnogi cydweithwyr a gomisiynwyd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol gwerthfawr. 3. Cyfleoedd parhaus i ddatblygu Arweinwyr Canol a Darpar Arweinwyr trwy gyfranogiad yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth ERW yn cynnwys Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth; 4. Mae 'Seminarau a Sesiynau Briffio Arweinyddiaeth ar gyfer Uwch-arweinwyr a Llywodraethwyr' wedi sicrhau bod ffocws ar feysydd penodol o welliant ac arweinyddiaeth strategol o ran gwella canlyniadau yn ein hysgolion. 5. Comisiynu uwch-arweinwyr i gefnogi pecynnau Llywodraeth Cymru a gyllidir gan grantiau e.e. Ysgolion Bach a Gwledig. Mae uwch-arweinwyr wedi gweithio ochr yn ochr â swyddogion ERW / CSC er mwyn gwella adnoddau a darpariaeth ar draws yr agendâu safonau a chynhwysiant.
Byddwn yn cefnogi Llywodraethwyr yn eu rôl arweinyddiaeth strategol drwy weithgareddau briffio a hyfforddi â ffocws, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi llywodraethwyr gorfodol. (Cam gweithredu rhif 12526)	✓	Yn sgil gweithredu'r system rheoli data Llywodraethwr newydd dros y misoedd diwethaf, bydd y cyfathrebu sy'n digwydd â llywodraethwyr yn well. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn dal i ddatblygu mewn ymateb i'r angen.
Byddwn yn datblygu ymhellach systemau i gefnogi gwella ysgolion, gan gynnwys darpariaeth Datblygiad Proffesiynol a Rheoli Perfformiad parhaus ar gyfer staff yr ysgol. (Cam gweithredu rhif 12527)	✓	Mae datblygu Hwb, system rheoli data newydd, a hyfforddiant ar-lein wedi sicrhau bod systemau cymorth ar gyfer ysgolion a staff canolog wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.
Byddwn yn parhau i lunio Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth ag ERW, ysgolion a phartneriaid eraill, yn unol â blaenoriaethau, gofynion a chyfarwyddyd cenedlaethol. (Cam gweithredu rhif 12528)	✓	Mae'r cynnydd o ran y cam gweithredu hwn yn destun, ac yn adlewyrchu, yr amserlen a'r ymdrech yn Rhanbarthol/Cenedlaethol. Rydym yn disgwyl diweddariad rhanbarthol yng nghyfarfod pwyllgor craffu y Gwasanaethau Addysg a Phlant ar 23.4.18. Gan na fydd cwricwlwm newydd Cymru ar waith yn llawn tan 2022, bydd targed carreg filltir

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		newydd yn cael ei bennu ar gyfer yr agwedd hon ar gyfer blwyddyn 2018/19.
Byddwn yn gweithredu cynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu rhif 12529)</i>	✓	Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ei gymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Mawrth 2018, heb yr angen am newidiadau pellach. Mae gwaith sylweddol wedi digwydd yn y cefndir i baratoi ar gyfer ei weithredu'n llawn - a bellach gall hynny fynd yn ei flaen. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Mehefin 2018. Pennir carreg filltir newydd ar gyfer y cam gweithredu parhaus hwn, wrth i'r strategaeth arwain hyd at 2020.
Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith partneriaeth gydag eraill sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned drwy Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu rhif 12530)</i>	✓	Yr Adran Addysg a Phlant yw'r corff hwyluso o hyd ar gyfer y bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn barhaus fel rhan o ddyletswyddau dyddiol swyddogion y gwasanaeth.